# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
# CYFARFOD ARBENNIG - 15/10/18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Steve Collings, Aled Evans, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elwyn Jones, Huw G Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Edgar W Owen, Elfed P Roberts, Cemlyn Williams

**Aelodau Cyfetholedig**: Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd)

**Swyddogion yn Bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaethau Democrataidd) ac Einir Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Iwan T Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Freya H Bentham, Judith Humphreys, Keith Jones, Mair Rowlands a Gareth Williams. Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru). Dilwyn Ellis Hughes (UCAC)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3 MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CYNLLUN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU : Y DDOGFEN GYNNIG**

Cyflwynwyd y Ddogfen Gynnig gan yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol : Cynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru, cyn i'r Cabinet ei ystyried yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2018 ac yna yng nghyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ar 25ain Hydref, 2018.

Ymhelaethodd yr Arweinydd, a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Nodwyd prif gasgliadau'r drafodaeth, gan gynnwys sylwadau a risgiau ychwanegol a adnabuwyd fel a ganlyn :

**Risgiau Ariannol**

- Mae'n allweddol parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r risgiau ariannol - yn arbennig y risgiau perthnasol i'r llif ariannol a'r risg o golli grantiau os nad oes rheolaeth ariannol gadarn yn ei le
- Argymhellir y dylid parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru i geisio cadw'r dreth annomestig (neu elfen o leiaf) fel modd o leihau'r costau i awdurdodau lleol
- Fodd bynnag, rhaid bod yn effro i'r risg ariannol ddisgyn ar Awdurdodau Lleol a pharatoi ar gyfer hynny trwy ystyried y proffil prosiectau a gwariant

**Risgiau Llywodraethu**

- Nodwyd y risg petai un o Bartneriaid y Cynllun yn tynnu'n ôl, ond cadarnhawyd y byddai hynny yn cael ei reoli gan y Cytundeb Partneriaeth sy'n cael ei ddatblygu yn gyfredol

- Nodwyd fod angen eglurder ynghylch y Fframwaith Llywodraethu i'r dyfodol, gyda'r Fframwaith Llywodraethu yn sicrhau trefn atebolrwydd clir yr Arweinyddion i'r Cynghorau unigol

**Risgiau Gwleidyddol**

- Nodwyd y risg i endid Cenedlaethol Cymru trwy ddatblygiad y Cynllun

**Risgiau Prosiectau**

- Bydd angen ceisio sicrhau fod busnesau bychain ac amaeth yn cael budd o'r Cynllun yn ogystal â'r cwmnïau mawr.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Danfon cadarnhad at y Cabinet fod y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i'r cyfeiriad strategol ac yn dangos eu cefnogaeth i fwrw ymlaen gyda'r Ddogfen Gynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 11.30yb